MYND ‘NOL

Dwy am fynd ‘nol I’r amser a fu
Pan fu yr arad ar y tir
A sŵn pedole ar y stryd
Pan ond ifanc oedd y byd.

Dwy am fynd ‘nol I’r dydd o’r blaen
Pan roedd ‘na flode ar y waun
Cyn daeth y newidiade’n llu
Yn rhy gyflym arnom ni.

Dwy am fynd ‘nol I’r eiliad cynt
Dwy am fynd ‘nol ar gefn y gwynt
Cyn I mi adael eirie’n rhydd
A ddaeth a deigryn ar dy rydd.

Treulio fy mywyd yn dymuno am well
Tra fod yma o hyd, trysor fy myd,
Sef ti.

Does dim yw gael wrth syllu ‘nol
Mae edrych ‘mlaen yr un mor ffôl
‘Wnaf ddisgwyl llai a rhoddi mwy
A cheisio derbyn pwy yr wy’.

©Geraint Griffiths 1988.